Dywedodd Iesu wrtho, “Derbyn dy olwg yn ôl; dy ffydd sydd wedi dy iacháu di.”
(Luc 18:42)

Dyma eiriau cysurlon a chalonogol i Bartimeus ddall yn ymyl dinas Jericho. Dyma wyrth sy’n arwyddo sut y cawn ddod eto i weld Duw fel ein Tad a’n Ffrind yng Nghrist.

Cardotyn dall

Mae Bartimeus (Marc 10) yn cardota wrth ymyl y ffordd ar gyrion Jericho. Roedd hon yn briffordd i bererinion oedd yn dod lawr i Jerwsalem ar gyfer y Pasg. Felly, byddai cardotwyr yn siŵr o geisio manteisio ar ewyllys da y sawl oedd yn mynd i’r Deml i gymryd rhan yn yr ŵyl arbennig. Mae cyflwr materol a chorfforol Bartimeus yn arwydd o gyflwr ysbrydol pob pechadur sydd heb adnabod Crist. Os ydym heb Grist yr ydym heb Dduw, ac mae hynny yn golygu ein bod “**yn dlawd, yn ddall, ac yn noeth”** (Dat. 3:17) fel aelodau eglwys Laodicea oedd wedi gadael i gyfoeth materol gymryd lle cyfoeth Crist yn eu bywydau.

Cardotyn penderfynol

Unwaith mae Bartimeus yn deall bod Iesu yn mynd heibio mae’n codi twrw er mwyn tynnu ei sylw. Mae’n gweiddi yn uchel arno am drugaredd.

Mae’n siŵr ei fod wedi clywed am Iesu, ei wyrthiau iachaol, ei fod yn ymwneud â’r anghenus di-nod. Os felly, mae’n bosib y byddai ganddo amser ar gyfer cardotyn dall hefyd. Os dyna oedd rhesymeg Bartimeus, roedd yn gywir.

Mae hynny’n ddarlun o berson sydd wedi clywed rhywbeth am Grist heddiw; wedi clywed rhywfaint am fywyd Crist a’i weinidogaeth a’i wyrthiau; wedi clywed o bosibl ei fod wedi marw dros bechaduriaid.

Mae Iesu’n ein hannog i geisio iachawdwriaeth â’n holl nerth: **“Ymegnïwch i fynd i mewn trwy’r drws cul” (**Luc 13:24). Dyma’n union wnaeth Bartimeus, ac fe dalodd ar ei ganfed iddo. Mae’n amlwg fod rhai lleisiau yn ceisio’i rwystro, ond nid ildiodd iddynt. Mae lleisiau negyddol anghrediniol i’w cael heddiw hefyd: llais anffyddiaeth sy’n cryfhau, llais crefyddau eraill, heb sôn am lais materoliaeth, i enwi ond tri.

Cardotyn parod

Pan ddaw cyfle i Bartimeus fynd at Iesu, dyw e ddim yn colli eiliad. Dywed Marc wrthym ei fod wedi taflu ei fantell i’r naill ochr, neidio ar ei draed, a dod at

Iesu. Mae hyn yn dra gwahanol i rai, pan oedd Iesu'n eu galw i'w ddilyn, oedd yn gohirio. Ceir dwy enghraifft o bobl eisiau mynd adref cyn dilyn yr Arglwydd (Luc 9.59). Yn nameg y wledd fawr roedd rhai gwesteion yn ymesgusodi yn hytrach na derbyn y gwahoddiad hael (Luc 14.15).

Mae'n bwysig heddiw hefyd fod pobl yn ceisio'r Arglwydd tra galler ei gael. Mae llawer o ffactorau yn ein temtio i ohirio dod at Grist ac ildio'n bywyd iddo. Rhaid gofyn y cwestiwn: ydy'r pethau hyn yn werth dal gafael arnynt a chael ein damnio heb Grist?

Cardotyn penodol

Pan mae Crist yn gofyn iddo beth y mae eisiau, mae Bartimeus yn gwybod. Os awn at y twrnai, problem gyfreithiol sydd gennym. Os awn at y meddyg, rhaid ceisio disgrifio'n poen.

Peth rhwystredig iawn yw ceisio helpu babi bach. Dwi di fy nghael fy hun yn y sefyllfa o drïo popeth i dawelu babi, am nad oeddwn yn deall beth oedd y broblem, a'r babi'n rhy fach i ddweud.

Er bod Iesu'n gwybod beth oedd problem Bartimeus, roedd yn disgwyl i'r claf fynegi ei angen. Mewn termau ysbrydol, mae'n bwysig ein bod ni'n deall beth yw ein hangen wrth geisio Crist. Mae angen cymodi â Duw arnom. Mae angen maddeuant arnom. Mae angen Gwaredwr i'n hachub oddi wrth ein pechodau. Nid cael teimlad braf yw ein hangen pennaf, nid ffeindio cariad, ond ffeindio'n Creawdwr a'n Duw.

Cardotyn crediniol

Mae Bartimeus yn galw Iesu'n Fab Dafydd. Er ei fod yn deitl Meseianaidd, roedd llawer yn meddwl am Fab Dafydd fel olynydd brenhinol, milwrol i'r Bardd Frenin. Doedd Bartimeus ddim yn deall llawer am Iesu, mewn gwirionedd; ond roedd ganddo ffydd ynddo, a dyna oedd yn bwysig er iachâd. Wrth ddod at Grist fel ein Gwaredwr, dŷn ni ddim yn gwybod hanner digon yn athrawiaethol amdano, o bosib, ond mae Ef yn chwilio am ffydd. ***Mae Iesu'n ymateb yn gadarnhaol i ffydd bob tro!***

Canlynwr

Ar unwaith, mae'r cardotyn yn troi'n ddisgybl. Ni fyddai problem perswadio Bartimeus i ddilyn Crist. Lle bu'n gardotyn dall, y mae nawr yn gweld. Fel hyn y dylai fod gyda phob Cristion. Os ydym wedi gweld tlodi a dallineb ein pechod, ac wedi derbyn cyfoeth gras Crist a golwg o Dduw, sut allwn ddal yn ôl rhag ei ganlyn â'n holl galon?